

# Cytundebau rhyngwladol

Y cytundebau a ystyriwyd ar 1  
Tachwedd 2021

Tachwedd 2021



# 1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU ar Gymru o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried:
  - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
  - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 1 Tachwedd 2021 gwnaethom ystyried tri chytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.<sup>1</sup>
6. Dyma'r cytundebau a ystyriwyd gennym:
  - Y DU/Y Swistir: Confensiwn ar gydgyssylltu nawdd cymdeithasol;
  - Cynnig Diwygiad i Erthygl 1 ac Erthygl 34 newydd BIS o Gonfensiwn 1968 ar Draffig Ffyrdd;
  - Y DU/Albania: Cytundeb ar drosglwyddo pobl sydd wedi'u dedfrydu.
7. Cytunwyd i gymryd camau pellach ar un o'r cytundebau a nodi'r ddau arall er gwybodaeth. Nodir manylion pellach am bob un o'r cytundebau isod.

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Tachwedd 2021

## 2. Y cytundebau sydd angen camau pellach

### Y DU/Y Swistir: Confensiwn ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 29 Medi. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 22 Tachwedd 2021.
9. Nod y cytundeb hwn yw sefydlu trefniadau cydgysylltu nawdd cymdeithasol newydd ar ôl Brexit rhwng y DU a'r Swistir mewn perthynas â rhai buddion, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd cilyddol. Fel Aelod-wladwriaeth, roedd trefniadau cydgysylltu nawdd cymdeithasol rhwng yr UE a'r Swistir yn berthnasol rhwng y DU a'r Swistir. Y tu allan i'r UE, byddai cydgysylltiad nawdd cymdeithasol rhwng y DU a'r Swistir yn digwydd ar delerau cytundeb dwyochrog 1968 yn absenoldeb cytundeb newydd.
10. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi yr ymgynghorwyd â'r Llywodraethau datganoledig ac y cawsant eu cynnwys yn y gwaith o baratoi'r Confensiwn. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, a'r awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon.
11. Mae hefyd yn egluro bod negodi cytundebau gofal iechyd cilyddol a lles gwladolion y DU dramor yn faterion a gadwyd yn ôl, ond mae rhai o'r meysydd y mae cytundebau gofal iechyd cilyddol yn eu cynnwys wedi'u datganoli, gan gynnwys gofal iechyd domestig ac adennill costau ymwelwyr tramor.
12. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu ac ymgynghori â swyddogion iechyd o'r gweinyddiaethau datganoledig drwyddi draw, gan rannu testun cyfreithiol drafft, cydgysylltu newidiadau mewn canllawiau a rheoliadau lle bo angen, a thrafod goblygiadau iechyd.
13. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yng Nghydbwyllgor Gweinyddol newydd y DU/y Swistir a sefydlwyd gan y Confensiwn, lle gallai trafodaethau a gynhelir a phenderfyniadau a wneir ymwneud â meysydd cymhwysedd datganoledig.
14. Nodwyd y cytundeb a chytunwyd i:
  - geisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am nifer o faterion, gan gynnwys goblygiadau'r cytundeb i gymhwysedd datganoledig;

- tynnu sylw Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd at y cytundeb yn sgil yr effaith ar drefniadau gofal iechyd y DU/y Swistir mewn meysydd datganoledig.

### 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

#### **Cynnig Diwygiad i Erthygl 1 ac Erthygl 34 newydd BIS o Gonfensiwn 1968 ar Draffig Ffyrdd**

**15.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 29 Medi. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 22 Tachwedd 2021.

**16.** Mae'r cytundeb hwn yn cynnig mewnosod dau ddiffiniad newydd i'r Confensiwn ac erthygl newydd i hwyluso'r defnydd cyfrifol o gerbydau awtomataidd. Er i'r DU lofnodi'r Confensiwn ym 1968, ni chafodd ei gadarnhau yn y DU tan 2018 a daeth i rym yn 2019. Y diwygiad arfaethedig yw'r gyfraith ryngwladol rwymol gyntaf sy'n ymwneud â cherbydau awtomataidd.

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, er nad ystyrir bod y cytundeb yn ymwneud â materion datganoledig, o ystyried ei effaith debygol, ymgynghorodd Llywodraeth y DU â'r llywodraethau datganoledig ynghylch ei bwriad i dderbyn y gwelliant a rhannu testun drafft.

**18.** Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud ag adeiladu a defnyddio cerbydau modur, mater a gadwyd yn ôl fel y darperir ym mharagraff 104 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

**19.** Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.

#### **Y DU/Albania: Cytundeb ar drosglwyddo pobl sydd wedi'u dedfrydu**

**20.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 19 Hydref 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 24 Tachwedd.

**21.** Nod y cytundeb hwn yw cyflawni polisi Llywodraeth y DU o drafod cytundebau trosglwyddo carchardai, a'i brif ddiben yw sicrhau bod troseddwr cenedlaethol tramor a ddelir yn y DU yn cael eu symud. Mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer trosglwyddo pobl sydd wedi'u dedfrydu rhwng y DU ac Albania.

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y cytundeb yn cynnwys mater a gadwyd yn ôl ond bod gan y cytundeb oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig lle maent yn trosglwyddo

carcharorion i gwblhau gweddill eu tymor yn eu gwlad wreiddiol. Mae'r Memorandwm yn parhau i nodi yr ymgynghorwyd â Gogledd Iwerddon a'r Alban ar y cytundeb a rhannwyd testun drafft gyda hwy. Ni chrybwyllir ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

**23.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â deddfau, polisiau a gweithdrefnau mewnfudo. Mae hwn yn fater a gadwyd yn ôl, fel y darperir ym mharagraff 29 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

**24.** Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.